## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach ar Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) 1988 ("y prif Reoliadau") sy'n darparu ar gyfer peidio â chodi taliadau penodol ac ad-dalu taliadau penodol a fyddai'n daladwy fel arall o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 ac ar gyfer talu treuliau teithio penodol a dynnir wrth fynd i'r ysbyty.

Mae **Rheoliad 2** yn galluogi plant sy'n ymadael gofal awdurdod lleol ac sy'n cael eu cynnal yn gyfan gwbl neu'n rhannol gan yr awdurdod hwnnw fanteisio drwy beidio â thalu dim taliadau neu gael ad-daliadau llawn, a chael talu eu treuliau teithio.

Mae **Rheoliadau 3** a 4 yn gwneud diwygiadau canlyniadol.